# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cabinet |
| **DYDDIAD:** | 5 Medi 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor/Hybrid |
| **TEITL:** | Heriau Recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023 |

**CEFNDIR:**
Rhoddwyd adroddiad manwl i Aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â'r heriau recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes, yn unol â'r cais a wnaed gan yr Aelodau yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth hir, ystyriodd yr Aelodau'r argymhellion canlynol:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y defnydd pwysig o weithwyr asiantaeth yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.
2. Nodi'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud i ymateb i'r her o recriwtio gweithwyr yn y sector hwn.
3. Rhoi adborth ac awgrymu unrhyw atebion posibl eraill i ddatrys yr her recriwtio.
4. Cymeradwyo bod swyddogion yn cydweithio â phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i bwyso a mesur cyfleoedd creadigol ac arloesol i ddarparu atebion mwy hirdymor.

**ARGYMHELLION:**
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell i'r Cabinet:

1. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad 1 a 2 uchod,
2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol, wedi'i hariannu'n llawn; a
3. Bod yr awdurdod yn cefnogi mwy o gydweithio gyda sefydliadau academaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***